# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Meithrinfa Plas Gogerddan

Meithrinfa Plas Gogerddan
**Gogerddan**
**Aberystwyth**
**SY23 3EB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**29 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Plas Gogerddan wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ofalu am uchafswm o 49 o blant; maent yn cynnig gofal i blant o chwe wythnos oed nes iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8.00am a 6.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc ac wythnos dros y Nadolig. Mae'r feithrinfa yn cael ei hariannu i ddarparu gofal i blant tair blwydd oed ac, o'r herwydd, caiff ei harolygu gan Estyn. Mae lleoedd ar gael hefyd i blant sy'n rhan o gynllun Dechrau'n Deg. Y person cofrestredig a'r person â gofal yw Emma Healy. Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog, ond ar hyn o bryd nid yw'n gweithredu'r 'cynnig gweithredol' mewn perthynas â'r Gymraeg yn llawn, oherwydd nid yw'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynd i Feithrinfa Plas Gogerddan yn hynod hapus, wedi ymgartrefu ac yn blant hyderus. Maent yn elwa ar gyfoeth o brofiadau gwahanol sy'n hybu eu datblygiad ac yn gwneud eu diwrnodau'n hwyl ac yn ddiddorol. Mae'r staff yn hynod o frwdfrydig ac yn cymryd cryn falchder mewn gofalu am y plant yn dda. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynllunio'n ofalus o safbwynt plentyn. Mae rheoli risgiau o safon uchel ac mae digon o adnoddau addas ar gael, sy'n cael eu hadolygu i sbarduno diddordeb y plant mewn profiadau gwahanol a newydd. Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn flaengar gydag arweinwyr ymrwymedig ac ymroddgar. Mae'r rhieni'n darparu adborth cadarnhaol ac yn hynod o fodlon ar y gofal a gynigir.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi gneud y canlynol:

- Diweddaru Datganiad o Ddiben y gwasanaeth i roi darlun llawnach o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig;
- mae'r staff bellach yn cofnodi eu hamseroedd egwyl i ddarparu cofnod cywir o'r unigolion sy'n gofalu am y plant ar bob adeg;
- mae'r ysgol goedwig wedi cael ei symud i leoliad newydd ac mae'r cysyniad wedi cael ei ddatblygu ymhellach;
- mae ystafell ar wahân erbyn hyn i'r plant dwy oed;
- mae Estyn wedi gwahodd y gwasanaeth i dderbyn gwobr ragoriaeth.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni nodwyd unrhyw argymhellion yn ystod yr arolygiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac yn ffynnu mewn amgylchedd gofalgar ac ysgogol.  Maent yn datblygu perthnasau ac yn elwa ar y profiadau cadarnhaol a gynigir.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae’r plant yn cael cyfle i fynegi eu barn ac maent yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt.

Gwelsom blant a oedd yn dylanwadu ar sut roeddent yn treulio'u hamser a gwnaethant ofyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt. Er enghraifft, gwnaeth y plant symud yn rhydd rhwng yr ardal dan do a'r awyr agored, gwnaethant ddewis chwarae gyda'r jig-so dan do, chwarae yn y caffi awyr agored neu archwilio natur yn yr ardd. Gwelsom riant yn cyrraedd i gasglu ei blentyn ond nid oedd y plentyn yn barod i adael; gyda chaniatâd y rhiant a'r staff, roedd yn cael aros i orffen y gêm roedd yn ei chwarae.  Yn ddiweddarach, aeth y plentyn i ddweud wrth y staff *“Rwy'n barod i fynd adref nawr.”* Gall y plant ymuno mewn gweithgareddau mewn ystafelloedd eraill os ydynt o ddiddordeb iddynt.  Ymunodd y plant o'r grŵp plant bach â'r plant cyn- ysgol yn yr ardd natur cyn dychwelyd i weithgareddau yn eu hystafelloedd penodedig.  Saesneg oedd y brif iaith, ond roedd y plant yn gallu cyfathrebu yn eu hiaith ddewisol.  Ymgynghorir â'r plant yn rheolaidd a chesglir eu barn ynghylch yr hyn maent wedi'i fwynhau a gwrandewir arnynt. Gwnaeth yr holl blant ddweud eu bod wedi mwynhau yn yr ysgol goedwig a threulio amser gyda'u ffrindiau a bod yn yr awyr agored.

Mae’r plant yn cymryd rhan yn dda; maent yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i ddylanwadau ar y ffordd maent yn treulio'u hamser.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi meithrin perthynas gadarnhaol a chyfeillgarwch â'r bobl o'u cwmpas.

Roedd yr holl blant yn hapus iawn i fod yno ac roedd yr hyder roeddent yn ei deimlo yn eu hamgylchedd yn amlwg.  Diddordebau'r plant a hybu eu llesiant oedd wrth wraidd popeth a ddigwyddodd.  Gwelsom hysbysiadau ar y waliau'n atgoffa staff *“dwylo pwy sydd brysuraf, yr oedolion neu'r plant”.*  Gwnaeth y plant arwain ym mhob maes ac roedd y lluniau oedd i'w gweld yn dangos yn glir y profiadau diddorol ac amrywiol yr oeddent wedi'u mwynhau yn ystod y mis diwethaf.  Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni eu gofalwyr; roeddent wedi ymgartrefu ac yn hapus ac roedd ganddynt ymlyniad cadarnhaol â'r staff i gyd. Er enghraifft, roedd rhai babanod wedi dechrau'n ddiweddar. Fe'u gwelsom yn ceisio cysur yn

briodol a gwnaethant ymateb yn hynod o dda i'r staff. Dywedodd un rhiant *“Rwy'n derbyn diweddariadau rheolaidd ar yr hyn mae’n ei wneud yn ystod y dydd a'r hyn mae wedi'i ddysgu. Pan dwi'n ei chasglu, mae hi bob tro'n gwenu ac yn mwynhau'r hyn mae'n ei wneud.”* Diwallwyd anghenion y plant yn dda iawn a rhoddwyd blaenoriaeth i hynny dros y drefn feunyddiol. Yn ystod amser cinio, roedd un babi yn hynod flinedig ac fe'i rhoddwyd i gysgu mewn cadair wthio gerllaw. Ar ôl cael seibiant bach, roedd hi'n gallu deffro i fwynhau ei chinio ac yna ymuno gyda'i ffrindiau i chwarae gyda'r teganau.

Caiff y plant eu cefnogi'n llawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Maent yn meithrin perthnasau ac yn gwneud ffrindiau.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu rheoli eu hymddygiad a chymryd tro ac yn dod yn sensitif i emosiynau pobl eraill.

Roedd y plant wedi ymgolli mewn gweithgareddau drwy gydol y dydd. Er enghraifft, gallai babanod ddewis chwarae yn y gornel gartref a oedd yn llawn adnoddau neu roedd modd iddynt archwilio'r basgedi trysor diddorol ac amrywiol a oedd wedi'u paratoi a'u gweithredu'n ofalus gan y staff i'r plant eu mwynhau. Roedd y plant yn cydweithio'n dda â'i gilydd; er enghraifft, roeddent yn dangos diddordeb yn yr hyn roedd plant eraill o'u cwmpas yn ei wneud. Gwnaeth dau blentyn berfformio caneuon gyda'i gilydd wrth iddynt chwarae yn y babell syrcas gyda'i gilydd; gwnaethant drafod pa ganeuon roeddent yn mynd i'w canu a chytuno y byddai'r ddau ohonynt yn sefyll ar gyfer y 'gyngerdd'. Pan roedd eraill am ymuno, fe’u croesawyd a rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt am yr hyn roedd yn rhaid iddynt ei wneud. Pan oedd plant yn casglu teganau i chwarae â nhw, fe'u gwelsom yn estyn tegan ar gyfer plant eraill hefyd. Gwelsom blentyn yn nôl blwch llawn Lego i bawb gael chwarae ag ef ac arllwyswyd y cynnwys i'r llawr. Gwnaeth grŵp arall o blant redeg draw yn llawn cyffro i ymuno yn y chwarae.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â’i gilydd. Maent yn llongyfarch cyflawniadau'r naill a'r llall ac maent yn awyddus i helpu a chefnogi eu cyfoedion.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae'r plant yn ddysgwyr prysur a chwilfrydig, ac yn cyfeirio eu chwarae a'u dysgu eu hunain.

Gwnaeth y plant ddilyn eu diddordebau; roedd cyfoeth o weithgareddau diddorol a llawn hwyl i'w cael. Roedd y plant yn brysur ac wedi'u diddanu drwy'r amser ac roeddent yn hapus i gymryd rhan. Nid oedd y plant yn gallu aros i fynd i'r ardd natur unwaith i'r glwyd gael ei hagor, a gwnaethant redeg yn llawn cyffro a dweud wrthym wrth iddynt basio'r hyn roeddent yn edrych ymlaen at chwarae ag ef. Gwelwyd y babanod yn mwynhau gweithgaredd paentio; gwnaethant ddefnyddio ceir wedi'u trochi yn y paent i rolio i lawr darn mawr o bapur ar sleid. Roedd y plant wedi cael amser wrth eu bodd yn chwarae gyda chamera Polaroid i dynnu lluniau yn y fan a'r lle ac roeddent wedi'u hudo gan y ffotograffau

a oedd yn cael eu hargraffu o'r camera ar unwaith. Gwnaeth y babanod fwynhau gweithgaredd chwarae anniben yn fawr iawn gan chwarae gyda blawd corn a hwyaid. Gwnaeth y profiadau synhwyraidd iddynt sgrechian yn llawn cyffro a mwynhad. Mae'r plant yn dysgu o'r byd o'u cwmpas, oherwydd bod yr adnoddau a'r gweithgareddau wedi cael eu cynllunio'n dda. Roedd y plant â diddordeb arbennig wedi cael cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn dilyn y diddordeb hwnnw. Er enghraifft, roedd un plentyn yn mwynhau adeiladu; felly gwnaeth y staff ei gefnogi i ddefnyddio'r teganau adeiladu. Dywedodd un rhiant wrthym fod gan ei phlentyn "*ddiddordeb mewn anifeiliaid a threnau a bod y staff yn gwneud ymdrech i sicrhau bod teganau ar gael iddo y bydd yn eu mwynhau - rydym hyd yn oed wedi benthyg rhai dros nos os ydyw am barhau i chwarae â hwy."*

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig ac maent yn awyddus i ddysgu ac archwilio. Maent yn rhannu eu cyflawniadau a dethlir eu llwyddiannau.

**1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn hyderus ac annibynnol ac yn gwneud cynnydd da.

Roedd y plant yn cael eu paratoi'n drwyadl i symud drwy'r ystafelloedd; roeddent yn cael eu cefnogi i ddatblygu a thyfu. Er enghraifft, gwelsom blant yn treulio cyfnodau o amser mewn ystafelloedd eraill er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd. Mae'r plant yn elwa ar bolisi ymgartrefu trylwyr sydd wedi'i arwain gan y plentyn; roedd y plant a'r rhieni'n ymweld â'r gwasanaeth faint bynnag o weithiau ag yr oedd angen i sicrhau bod y plant yn gyfarwydd ac yn barod i dreulio amser i ffwrdd oddi wrth eu rhieni. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad corfforol a gwelwyd y plant yn defnyddio trawstiau cydbwyso a chawsant eu cefnogi i ymhél â risgiau cadarnhaol drwy ddringo ac adeiladu a gweithgareddau awyr agored yn yr ysgol goedwig. Mae'r plant yn gwneud cynnydd cadarnhaol drwy anogaeth y staff a thrwy arwain eu taith ddysgu eu hunain. O ganlyniad, maent yn blant hyderus a hapus. Gwnaeth pawb ddarparu adborth cadarnhaol iawn am eu profiadau ym Meithrinfa Gogerddan *"rwy'n hoffi'r bwyd, fy hoff le yw'r goedwig, rwy'n hoffi chwarae gyda ffrindiau a chwarae dal".*

Mae'r plant yn gallu cyflawni pethau drostynt eu hunain; maen nhw'n ffynnu oherwydd y profiadau a gynigir.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn eithriadol o ymroddedig i'w swyddi. Mae cyfrifoldebau a dyletswyddau wedi'u diffinio'n glir. Rhoddir cryn flaenoriaeth i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n dda, gan ystyried gallu'r plant a sicrhau eu bod yn cael budd o'r amser a dreulir ym Meithrinfa Gogerddan.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y staff ddealltwriaeth wych o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn ymroddedig ac yn ymrwymedig i hybu iechyd a llesiant y plant.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cyfrifoldebau wrth hybu ffyrdd iach o fyw a rhoi polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar waith. Gwelsom y staff yn rhoi eli haul ar y plant yn rheolaidd gan nodi pan oedd y dasg hon wedi cael ei gwneud. Gwelsom fod staff yn gwneud cofnodion o blant bob tro roeddent yn dod i mewn ac allan o'r feithrinfa i chwarae a hefyd fod y staff yn yr holl ystafelloedd yn cofnodi'n gyson wiriadau corfforol rheolaidd o blant yn cysgu. Roedd yr holl ffurflenni meddyginiaeth a digwyddiadau wedi'u cwblhau'n llawn yn ogystal â'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd polisi diogelu clir ar waith ac roedd staff yn gyfarwydd â hyn drwy hyfforddiant a'r broses ymsefydlu. Dywedodd staff wrthym eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu a'u bod yn gwybod pwy oedd y person dynodedig ar gyfer diogelu.

Roedd gan y staff wybodaeth fanwl am alergeddau'r plant ac roedd yr wybodaeth wedi'i harddangos yn glir ac roedd ar gael yn hawdd. Rhoddodd y staff bwyslais mawr ar fwyta'n iach a threulio amser yn yr awyr iach. Darparwyd prydau iach a maethlon gan ddilyn bwydlen wythnosol sy'n cylchdroi. Mae'r fwydlen yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd i weld sut gallant leihau ymhellach faint o siwgr mae'r plant yn ei fwyta. Rhoddodd y staff bwyslais mawr ar ddarparu profiadau awyr agored cadarnhaol ac ysgogol. Gwnaethant yn sicr nad oedd y plant yn rhy gynnes, gan roi cysgod a dŵr yfed iddynt yn barhaus mewn poteli diod wedi'u labelu.

Roedd bron yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gyda chymwysterau ychwanegol ar gyfer gweithwyr yr ysgol goedwig, a oedd yn ystyried y gwahaniaeth yn yr amgylchedd.

Mae'r staff yn rhoi arfer gorau ar waith yn hyderus ac yn hybu iechyd a llesiant cyffredinol y plant i wella canlyniadau i'r plant.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn broffesiynol, yn hawdd mynd atynt ac yn ofalgar.

Roedd y staff yn ymroddedig ac ymrwymedig i ddarparu profiadau ystyrlon a chadarnhaol i'r plant. Roedd y staff yn ymgysylltu â'r plant mewn ffordd bwrpasol ac yn cymryd amser i

eistedd a chwarae gyda nhw a sicrhau eu bod yn gwybod bod eu teimladau a'u barn yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, pan wnaeth gweithgaredd a gynlluniwyd a oedd yn cynnwys adnabod siapiau droi mewn i'r plant yn creu bws i fynd ar daith, eisteddodd y plant ar y 'bws' gyda'r plant a sgwrsio am ble'r oeddent yn mynd. Roedd y staff yn canmol ac yn annog y plant yn rheolaidd, gan roi gwybod iddynt ba mor dda roeddent wedi gwneud. Er enghraifft, pan wnaethant baentio gyda'r teclyn stwnsho tatws neu pan wnaethant ddewis llyfr i fynd gyda nhw i'w ddarllen ar y mat. Dywedodd y staff wrth y plant pa mor 'ffantastig' oeddent, ac roedd yr holl ryngweithio'n wirioneddol gynnes a chariadus. Gwelsom y staff yn helpu'r plant mewn modd llwyddiannus i rannu'r adnoddau oedd ar gael. Roedd dau blentyn am chwarae gyda'r 'dylwythen deg' o'r ardd tylwyth teg, defnyddiwyd amserwr wy ac roedd y plant mor gyfarwydd â'r dull hwn, gwnaethant rannu'r 'dylwythen deg' heb anogaeth gan y staff.

Mae'r staff yn meithrin a hyrwyddo perthnasau cadarnhaol ac maen nhw'n ofalgar a brwdfrydig eu dull, sydd felly'n galluogi'r plant i ffynnu a thyfu.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hybu datblygiad y plant yn effeithiol drwy gynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu diddorol ac amrywiol sy'n ystyried diddordebau, oedran a cham datblygu unigol y plant.

Roedd y staff yn ymdrechu i roi sylw unigol i'r plant. Er enghraifft, roedd bwrdd gwyn ym mhob ystafell yn cofnodi diddordebau unigol y plant a sut roedd y staff yn bwriadu eu cynnwys yn eu dysgu. Roedd y staff yn ymroddedig i sicrhau bod diwrnodau'r plant yn brysur ac yn llawn gweithgareddau diddorol. Roedd cynllunio ar gyfer gweithgareddau plant hŷn yn canolbwyntio ar eu syniadau a'u profiadau ynghylch y pwnc. Gwnaeth y staff weithio gyda'r plant i gasglu eu barn; gwelsom fod yn staff wedi casglu profiadau'r plant o fod ar y traeth a chafodd y rhain eu harddangos ar y waliau. Roedd yr holl chwarae wedi'i arwain gan y plant ac roedd y staff yn cadw at yr ethos *“nid y cynnyrch terfynol sy'n bwysig, ond yr hyn y mae'r plant yn ei brofi wrth greu hyn”.*

Gwnaeth y staff fyfyrio'n rheolaidd ar yr hyn a wnaethant, sut roedd yn cael ei gyflawni, beth oedd y plentyn wedi'i ennill o'r profiad a'r hyn y mae modd ei wneud yn wahanol. Dywedodd y rhieni wrthym “*mae'r staff yn wych - maent BOB TRO'N mynd gam ymhellach. Rwy'n ymddiried ynddynt gant y cant. Mae'n amlwg eu bod wir yn poeni am y plant ac nid oes unrhyw beth yn ormod iddynt. Mae'n amgylchedd llawn hwyl, magwrol a llawn cariad.”*

Roedd y system gweithiwr allweddol wedi'i rheoli'n effeithiol ac o ddiwrnod cyntaf y plant ym Meithrinfa Gogerddan, gwnaeth y staff gofnodi arsylwadau manwl am gyflawniadau'r plant a defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i gynllunio ar gyfer camau nesaf dysgu'r plant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy'n gyfarwydd â'r plant yr oeddent yn gysylltiedig â hwy.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r plant; maent yn meithrin perthnasau cadarnhaol i sicrhau bod trefniadau dyddiol yn darparu sefydlogrwydd a diogelwch ac yn creu ymdeimlad o hwyl a mwynhad.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Dilynir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a sicr. Mae'n sicrhau bod risgiau diangen i blant yn cael eu nodi a'u lleihau neu eu dileu.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymgymryd â rôl arweiniol wrth sicrhau bod yr holl asesiadau risg yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Er enghraifft, cwblhawyd asesiad risg newydd pan wnaeth y plant ddechrau defnyddio'r ysgol goedwig newydd a'i rannu'n briodol gyda'r staff a oedd yn hyderus yn eu galluoedd. Mae arweinwyr ystafelloedd yn cymryd cyfrifoldeb dros gwblhau asesiadau risg dyddiol. Bydd llysgennad iechyd a diogelwch newydd yn cefnogi'r staff i gyflawni eu dyletswyddau rheoli risg. Roedd y feithrinfa wedi derbyn sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd yr unigolyn cyfrifol wedi gofyn am gymorth gan adran iechyd yr amgylchedd ac wedi defnyddio'r offeryn archwilio heintiau i wneud penderfyniadau ynghylch yr arferion hylendid. Mae'r arweinydd yn parhau i gefnogi staff i hwyluso gweithgareddau sy'n sicrhau bod cydbwysedd rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol a bod gan y plant y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis dringo ar fframiau dringo ac archwilio'r goedwig, yn seiliedig ar asesiad risg cadarn a goruchwyliaeth agos gan staff. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd gyda chamau gweithredu'n cael eu cymryd mewn da bryd os oedd angen. Er enghraifft, roedd ymarferion ychwanegol wedi cael eu cwblhau i gefnogi'r staff i fod yn hyderus o ran y broses i'w dilyn ac roedd cotiau newydd ar gyfer gadael mewn argyfwng wedi cael eu prynu.

Mae'r arweinydd yn gymwys wrth sicrhau diogelwch yr amgylchedd.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i gynllunio'n dda, yn ystyried y byd o safbwynt y plant ac yn darparu amgylchedd dysgu cyfoethog.

Mae'r amgylchedd yn cael ei ddatblygu'n barhaus er mwyn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r plant chwarae a dysgu. Roedd yr holl ystafelloedd wedi'u haddurno'n dda ac yn briodol ar gyfer oedran y plant a oedd yn derbyn gofal ynddynt. Roedd gwaith a ffotograffau'r plant yn cael eu harddangos drwy'r feithrinfa, a oedd yn creu ymdeimlad o sicrwydd a pherthyn. Roedd gan y plant fynediad i ardaloedd chwarae awyr agored llawn adnoddau â chysgod rhag yr haul. Dywedodd y rhieni wrthym "*mae'r ardal awyr agored yn wych a dwi'n gwybod bod fy mab yn ddiogel ac yn derbyn gofal da yn yr awyr agored".* Dywedodd rhiant arall mai un o'r

pethau cadarnhaol iawn am y feithrinfa oedd ei leoliad gan ddweud "*Mae'r cefn gwlad yn bwysig, ond hefyd y pellter o'r brif ffordd fel nad oes angen i ni boeni amdano'n mynd yn agos at brif ffordd".* Roedd y plant yn ffynnu ac yn magu hyder oherwydd eu bod yn gallu archwilio ardaloedd chwarae cyfforddus a diddorol a oedd ar gael iddynt.  Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cyflwyno ysgol goedwig newydd. Gwelsom dystiolaeth o'r plant yn creu angylion eira yn y gaeaf a lluniau ohonynt yn paratoi byrbryd o ffa pob ar dost ar dân gwersyll.  Mae egwyddorion a manteision yr ysgol goedwig yn cael eu harddangos yn glir yn y feithrinfa i bawb eu gweld ac mae'r rhieni'n hynod frwdfrydig am yr effaith gadarnhaol yr oedd y profiadau'n ei chael ar y plant.  Dywedodd un rhiant mewn holiadur a gwblhawyd ei bod yn edrych ymlaen at yr adeg y bydd ei phlentyn yn ddigon hen i fwynhau'r gweithgareddau a oedd ar gael yn yr ysgol goedwig.  Gwelwyd y plant yn mwynhau'r gweithgaredd dŵr mewn pabell syrcas; gwnaethant redeg a neidio. Roedd yr amgylchedd yn hollol gyfarwydd iddynt ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd mewn amgylchedd diddorol a llawn hwyl.

Mae arweinwyr yn gwneud mwy nag sy'n rhaid i sicrhau bod yr amgylchedd yn addas.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu amrediad rhagorol o deganau ac offer o ansawdd da, sy'n rhoi toreth o wahanol weithgareddau diddorol i'r plant.

Roedd yr offer a'r adnoddau wedi'u cynllunio'n ofalus i gynnig amrywiaeth o wahanol gyfleoedd dysgu i'r plant.  Roedd gweadau gwahanol yn cael eu cyflwyno a lle bynnag y bo modd, mae arweinwyr yn defnyddio eitemau naturiol ac eitemau bywyd go iawn. Gwnaethant ddefnyddio brigau a darnau o goed i greu ac adeiladu. Gallai'r plant eistedd a darllen naill ai dan do neu yn yr awyr agored ymhlith clustogau cysurus neu ar y bwrdd a chadeiriau pren. Roedd yr adnoddau ym mhob ystafell yn adlewyrchu oedrannau a chamau datblygu'r plant.  Roedd riliau cebl mawr wedi'u haddurno'n lliwgar a gallai babanod eu defnyddio i chwarae a'u defnyddio i fagu cryfder wrth dynnu eu hunain i fyny i sefyll.    Caiff eitemau eu cylchdroi a'u hailgyflenwi, ac mae'r staff yn elwa ar allu symud adnoddau rhwng yr ystafelloedd. Mae staff yn mynd ati'n ddiwyd i lanhau'r adnoddau'n drwyadl, a chedwir cofnod manwl o bryd y caiff eitemau eu glanhau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod amrediad rhagorol o adnoddau ac offer ar gael, sy'n hybu chwilfrydedd y plant ac yn gwella eu profiadau a'u datblygiad.  Mae'r adnoddau'n ddiddorol ac mae'r plant yn mwynhau eu defnyddio.

## 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn hynod ymrwymedig ac yn mynd ati'n frwdfrydig i fynd gam ymhellach i gynllunio a chyflawni gwasanaeth lle gall plant ffynnu. Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi cyfraniad ac ymroddiad y staff ac maent yn ymgymryd â'u rolau'n llawn brwdfrydedd. Mae rhoi gwelliannau parhaus ar waith yn flaenoriaeth ac mae arweinwyr yn ceisio sicrhau bod syniadau newydd yn llawn dychymyg ac yn fanteisiol i blant a'u teuluoedd. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth a gynigir yn fawr ac maent yn siarad yn hynod gadarnhaol am y gofal mae eu plant yn ei dderbyn.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn flaengar ac wedi'u hysgogi i arwain a darparu gwasanaeth rhagorol.

Mae arweinwyr yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth eithriadol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gosod nodau clir ac mae gwerthoedd craidd y gwasanaeth oll yn cael eu llunio o amgylch egwyddorion 'PROUD'. Mae'r arweinwyr yn derbyn cydnabyddiaeth am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd yn rheolaidd ac mae'r gwasanaeth wedi'i bleidleisio'n un o'r 20 o feithrinfeydd gorau gan Rieni yng Nghymru ers pedair blynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cael ei gydnabod gan y Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd fel gwasanaeth rhagorol ac mae wedi cael ei defnyddio fel meithrinfa enghreifftiol. Mae arweinyddiaeth y gwasanaeth yn weladwy ac yn gefnogol. Yn ddiweddar, gwnaeth yr arweinwyr ymweld â'r Ffindir i gasglu gwybodaeth cyn datblygu a rhoi'r 'ysgol goedwig' newydd ar waith lle mae'r plant yn ffynnu o'u profiadau o fod mewn amgylchedd naturiol. Dywedodd rieni, "*mae'r arweinydd wir yn unigolyn hyfryd ac yn arweinydd gwych. Mae'n dangos y gallwch reoli tîm yn hynod lwyddiannus drwy fod yn garedig ac yn gadarnhaol, heb fod yn ormesol nac yn fwli. Mae'n hawdd mynd ati bob tro a bydd bob tro'n dweud helo, hyd yn oed os nad yw hi "ar ddyletswydd"*".Mae'r arweinwyr yn ofalus iawn yn eu harweinyddiaeth i ysgogi'r lleoliad i fod yn amgylchedd meithringar a gofalgar lle mae'r plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac yn hyderus. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac ar gael yn hawdd i'r rhieni a'r staff.

Mae gan arweinwyr a staff ymdeimlad clir o bwrpas sy'n hyrwyddo gwelliannau ac sy'n rhagori'n rheolaidd ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn y dyfodol yn gynhwysfawr ac yn derbyn y flaenoriaeth uchaf yn ddiamau.

Mae'r arweinwyr yn rhoi prosesau effeithiol a thrwyadl ar waith i werthuso'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn rheolaidd, sy'n fanteisiol i'r plant, eu teuluoedd a'r staff a sut gallent wella ar yr hyn maent yn ei wneud. Mae'r adolygiad ansawdd gofal yn broses barhaus ac mae'n gynhwysfawr ac yn eang ac yn cynnwys cynllun manwl o'r newidiadau y

mae arweinwyr am eu rhoi ar waith.  Gwelsom dystiolaeth o newidiadau diweddar i'r amgylchedd a dywedodd y sawl y gwnaethom siarad â nhw ei fod wedi bod yn newid cadarnhaol; rhoddodd yr ystafell newydd i blant dwy oed ardal ar wahân iddynt.  Mae'r arweinwyr yn dangos menter ac maent yn ymweld â gwasanaethau eraill a digwyddiadau cenedlaethol yn rheolaidd er mwyn casglu syniadau newydd a chyffrous.

Mae'r arweinwyr yn gwerthuso ac yn adolygu'r gwasanaeth yn gyson ac yn rhoi strategaethau cadarn ar waith i sicrhau gwelliannau parhaus er mwyn cyflawni canlyniadau rhagorol i blant, teuluoedd a staff. Mae’r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn darparu lefelau uchel o gymorth cyson, maent yn gwerthfawrogi gwaith caled y staff ac yn rhoi adnoddau rhagorol iddynt allu cyflawni eu rôl.

Mae'r arweinwyr yn weladwy ac ar gael bob amser. Roedd yr arweinwyr yn dangos yn glir yr hyn roedd y gwasanaeth yn ceisio'i gyflawni ac yn cefnogi'r staff i fod yn arloesol, gan werthfawrogi'r gwaith maent yn ei wneud yn fawr.  Mae'r unigolyn cyfrifol wedi penodi arweinwyr cymwys a phrofiadol ym mhob ystafell a dywedodd yr holl staff a wnaeth siarad â ni eu bod yn mwynhau eu gwaith yn fawr ac yn teimlo eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r plant.  Cynhelir sesiynau goruchwylio rheolaidd ac mae arfarniadau blynyddol yn ystyrlon.  Mae'r arweinwyr yn gwahodd staff i roi adborth rheolaidd ar eu barn am y gwasanaeth ac mae hyrwyddo'u llesiant yn o egwyddorion craidd y gefnogaeth maent yn ei derbyn drwy oruchwyliaeth.  Mae'r arweinwyr yn cydnabod cyflawniadau'r staff mewn seremoni wobrwyo flynyddol ac mae'r holl staff yn derbyn cydnabyddiaeth am eu cyfraniad a'u hymroddiad.  Mae'r holl ddogfennau y mae eu hangen dan Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ar gael ac yn hynod drefnus.  Mae'r arweinwyr a'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i reoli ac ailgyflenwi adnoddau. Mae'r arweinydd cyfrifol yn gwerthfawrogi creadigrwydd a dychymyg y staff yn fawr wrth roi newidiadau newydd a diddorol ar waith.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel priodol o'u hunain ac eraill, maent yn gosod targedau realistig ac yn hybu ac yn cynnal ymdeimlad o un tîm mawr yn gweithio gyda'i gilydd i ysgogi a chefnogi'r staff.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd a'r gymuned ehangach.

Yn ôl gweledigaeth arweinwyr o'r gwasanaeth, mae’r gofal a ddarperir i'r plant yn estyniad o'r hyn y byddent yn ei dderbyn yn y cartref.  Mae profiadau'n cael eu cynllunio'n dda ac yn ystyried profiadau'r plant yn y cartref gyda'u teuluoedd bob tro.  Yn ddiweddar, gwnaeth y plant a'u teuluoedd fwynhau ffair haf yn y gwasanaeth. Roedd teuluoedd wedi mwynhau

gweithgareddau yn y babell syrcas a chlywsom rieni'n diolch i'r unigolyn cyfrifol am y diwrnod a gwnaeth pawb fwynhau'r profiad.

Maent yn gweithio'n galed i groesawu rhieni a brodyr a chwiorydd i fod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth. Roedd yr adborth gan rieni'n gadarnhaol iawn ac yn dangos tystiolaeth o sut mae Meithrinfa Gogerddan yn rhagori ar ddisgwyliadau rhieni. Dywedodd un rhiant *"Mae popeth y mae gofal plant Gogerddan yn ei ddarparu yn fwy na rhagorol. Maent yn mynd gam ymhellach i sicrhau y diwellir anghenion fy mhlentyn a minnau."* Dywedodd rhiant arall, "*Rydym wedi bod yn defnyddio Gofal Plant Gogerddan ers 18 mis ar gyfer ein hunig blentyn ac rydym yn hynod falch gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r staff yn gallu siarad â rhieni am blant unigol."*

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gydag ysgolion cyfagos a'r athro ymgynghorol. Mae'r arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth i baratoi'r plant a'u dechrau ar eu taith i addysg amser llawn. Caiff cylchlythyrau eu cyhoeddi'n rheolaidd gyda staff o bob ystafell yn gwneud cyfraniad gwerthfawr.

Mae'r arweinwyr yn hybu gweithio mewn partneriaeth i wella dysgu a llesiant y plant, maent yn rhoi'r holl wybodaeth i'r rhieni ac yn eu hannog i fod yn bartneriaid gweithgar. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n galed i hybu cysylltiadau da â'r gymuned ac asiantaethau partner.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ni nodwyd unrhyw argymhellion yn yr arolygiad hwn.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 26 Mehefin 2018 rhwng 8.50am a 6.00pm.

Gwnaethom:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau
- Siarad â'r plant a'r staff;
- Darllen holiaduron gan rieni
- Edrych ar ffeiliau'r plant a ffeiliau'r staff
- Rhoi adborth manwl.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Emma Healy** |
| **Person â gofal** | **Emma Healy** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **49** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng chwe wythnos a phedair blwydd oed** |
| **Oriau agor** | **8am – 6pm**<br>**Dydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **27 Mehefin 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **26 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Gweithredol' yr Iaith Gymraeg yn llawn. Er bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, ni fyddai'r holl ddogfennau ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg. Mae arweinwyr a staff wedi dangos ymrwymiad i fod yn wasanaeth dwyieithog yn y dyfodol.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |